Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	6 Rhagfyr 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Win-Mullen James - Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio
Awdur yr adroddiad	Lara Griffiths - Uwch Swyddog Cynllunio
Teitl	Cytundeb Cyflawni Diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol newydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn nodi'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd 2018 - 2033. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen i symud ymlaen i fabwysiadu'r CDLl newydd ac yn amlinellu pwy, sut a phryd fydd y Cyngor yn ymgynghori ar y camau amrywiol o baratoi'r CDLl. Mae angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn sgil yr oedi yn yr amserlen gytunedig a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19, oedi mewn cyhoeddi'r canllawiau a pholisi perygl llifogydd ac etholiadau lleol. Rhaid i'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor ac yna ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gytuno. Mae'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Drafft wedi'i atodi i'r adroddiad hwn yn Atodiad 1.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Mae angen cymeradwyaeth ar gyfer Cytundeb Cyflawni Diwygiedig y CDLl newydd. Mae'r Grŵp Cynllunio Strategol a'r Cabinet wedi argymell bod y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cael ei gyflwyno i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn Atodiad 1 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3.3. Bod y Cyngor yn awdurdodi Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad i gytuno ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i Gytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae angen Cytundeb Cyflawni sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl a'r trefniadau ymgynghori. Cafodd y Cytundeb Cyflawni presennol ei gymeradwyo ym Mai 2018. Mae'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn gam allweddol o symud ymlaen gyda'r CDLl newydd ac ni all gamau ymgynghori ffurfiol pellach gael eu cyflawni tan fydd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig wedi ei gymeradwyo.

4.2. Roedd y gwaith ar y CDLl newydd yn datblygu'n dda ac yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a gymeradwywyd cyn i bandemig Covid-19 gyrraedd yn gynnar yn 2020. Mae oedi i'r amserlen wreiddiol wedi cael ei achosi yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Aelodau o'r tîm CDLl yn cael eu had-leoli er mwyn cynorthwyo â'r ymateb i'r pandemig
- Oedi mewn cyhoeddi polisi TAN newydd a chanllawiau ar berygl llifogydd
- Gwaith ychwanegol ar yr Asesiad o Ganlyniad i Lifogydd Strategol
- Gwaith ychwanegol ar Asesiadau Canol Trefi
- Effaith ffosffadau ar y CDLl
- Etholiadau Llywodraeth Leol

4.3. Mae’r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn nodi’r trefniadau ymgynghori ar gyfer camau amrywiol o baratoi’r CDLl. Mae hwn hefyd wedi cael ei addasu ychydig er mwyn adlewyrchu datblygiad porth Ymgynghori’r Sir. Cyfeirir hefyd at y Siarter Cyngor Dinas, Tref a Chymuned diwygiedig.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at weithredu’r blaenoriaethau Cyngor canlynol fel y nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2022 - 2027:

- Thema 1: Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl
- Thema 2: Sir Ddinbych ffyniannus
- Thema 3: Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus
- Thema 4: Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu
- Thema 5: Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu’n well
- Thema 6: Sir Ddinbych mwy gwyrdd
- Thema 7: Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal.
- Thema 8: Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Thema 9: Cyngor sy’n cael ei gynnal yn dda ac sy’n uchel ei berfformiad

5.2. Bydd y CDLl newydd yn cynnwys polisïau a dyraniadau tir a ddylai wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at darged y Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni fydd cymeradwyo’r Cytundeb Cyflawni yn golygu costau ychwanegol nac yn effeithio ar wasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Mae’r casgliadau yn niwtral neu’n bositif. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi amserlen ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori a sut y gwneir hyn. Bydd nifer o'r canlyniadau yn dibynnu ar natur y deunydd sy'n destun ymgynghoriad ond mae’r Cytundeb Cyflawni yn ceisio sicrhau y gall pawb ddweud eu dweud ac y byddwn yn ymateb i'w sylwadau. Mae’r asesiad llawn i’w weld yn Atodiad 2

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig ei adrodd i'r Grŵp Cynllunio Strategol ar 19 Hydref 2022, lle argymhellwyd iddo fynd i'r Cabinet a'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth. Trafododd y Cabinet y Cytundeb Cyflawni diwygiedig ac argymell ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 22 Tachwedd 2022.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau y gall unrhyw adnoddau ychwanegol gael eu cynnal o fewn yr adnoddau presennol. Cefnogir yr argymhellion.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Os na fydd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor yna bydd oedi sylweddol yn natblygiad y CDLl newydd. Bydd angen Cytundeb Cyflawni cyfredol, wedi'i gymeradwyo cyn i unrhyw gamau ymgynghori statudol pellach ddigwydd. Bydd y Cyngor yn dibynnu'n gynyddol ar bolisi cenedlaethol yn hytrach na pholisi lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a fydd yn erydu penderfyniadau lleol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015